**ArtWorks Cymru yn Edrych am Artistiaid-Hyfforddwyr ar Gyfer Briff Llwybr Hyfforddi Artitiaid**

Mae ArtWorks Cymru yn awr yn gwahodd artistiaid i'w cyflwyno eu hunain i fod yn rhan o ddatblygiaid Llwybr Hyfforddi Artistiaid ArtWorks Cymru. Caiff y Llwybr Hyfforddiant Artistiaid ei ddatblygu i gefnogi artistiaid cyfranogol llaw-rydd yng Nghymru i ddatblygu eu hymarfer a bydd yn canolbwyntio ar ddialog un i un rhwng artist-hyfforddwr ac artist-hyfforddai lle gall yr hyfforddai ymchwilio eu hymarfer, uchelgeisiau, anghenion a photensial.

Rydym yn awr yn edrych am bedwar artist-hyfforddwr i gymryd rhan yn ein hencil hyfforddiant lle byddwn yn datblygu'r rhaglen hyfforddiant mewn cysylltiad â Courtney Boddie o'r New Victory Theatre, Efrog Newydd. Bydd pob artist wedyn yn hyfforddi pump artist arall i ddefnyddio'r rhaglen a ddatblygwyd.

Rydyn ni’n awyddus i dderbyn ceisiadau o unigolion sydd heb gynrychiolaeth/ wedi gwynebu esgeuluso neu gwaharddiad o’r gymuned gelfyddydol; rydyn ni’n croesawi’n arbennig ymgeiswyr o bobl anabl, pobl du, pobl Asian, a phobl sy’n ethnig amrywiol.

Yn 2023-2024 mae'r rhaglen ArtWorks Cymru yn ymroddedig i wneud ein gweithle mor hygrych a phosibl a bydd pob gwahoddiad ar gynnig i unrhyw artist neu sefydliad yng Nghymru. Mae diddordeb arbennig gyda ni i dderbyn ymgeiswyr o'r grŵpiau lleiafrif ac ymgeiswyr anabl.

**Yr hyn yr edrychwn amdano**

ARTISTIAID-HYFFORDDWYR
Er mwyn gwneud cais i ddod yn un o'n artistiaid-hyfforddwyr dechreuol, bydd angen i chi gyflawni'r meini  prawf dilynol:

- Mae'n rhaid i chi fod â mwy na dwy flynedd o brofiad o weithio fel artist cyfranogol
- Mae'n rhaid i'ch gwaith fod yn seiliedig yng Nghymru yn bennaf
- Rhaid i chi gael eich noddi wneud cais gan sefydliad - byddwn yn gofyn am lythyr cefnogaeth gan y sefydliad sy'n eich noddi fel rhan o'r broses gais
- Mae'n rhaid i chi ymrwymo i fynychu pob digwyddiad yn y rhestr llwybr islaw
- Dylech fod yn awyddus i ddatblygu eich sgiliau fel hyfforddwr a bod â diddordeb mewn myfyrio ar eich ymarfer

SEFYDLIADAU NODDI
Dylai Sefydliadau Noddi fod yn sefydliadau celf neu sefydliadau cymunedol a all gysylltu'r artist-hyfforddwr gyda rhwydwaith ehangach o artistiaid a allai ddod yn hyfforddeion iddynt. Byddwn yn gofyn i Sefydliadau Noddi i gynnal y dilynol:

- Cefnogi'r artist-hyfforddwr i gynnal y rhaglen drwy ddarparu llythyr cymorth
- Cysylltu'r artist-hyfforddwr gydag artistiaid eraill sy'n cyflwyno prosiect i'ch sefydliad
- Helpu'r artist-hyfforddwr i recriwtio pump o hyfforddeion
- Darparu gofod ar gyfer cynnal sesiynau os oes angen
- Ymrwymo i gymryd rhan mewn myfyrio a gwerthuso'r rhaglen gyda Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru

**Amserlen y Llwybr Hyfforddi**

Mae'r rhestr llwybr hyfforddi fel sy'n dilyn. Mae'n rhaid i chi fedru ymrwymo i'r amserlen i wneud cais am rôl fel artist-hyfforddwr.

| | |
|---|---|
| Mehefin 2023 | Llwybr yn agor ar gyfer ceisiadau<br>Penodi Artistiaid-Hyfforddwyr |
| Mehefin / Gorffenhaf 2023 | Cwrdd gyda Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru i osod deilliannau rhaglen<br>Gweithio gyda sefydliadau noddi i recriwtio 5 hyfforddai |
| Gorffenhaf 2023 i Chwefror 2024 | Cynnal 5 sesiwn hyfforddiant gyda 5 hyfforddai |
| Medi 2023 | Artistiaid-Hyfforddwyr Sesiwn Oruchwyliaeth |
| Mawrth 2024 | Cwrdd gyda Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru i fyfyrio a werthuso |

**Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi**

Caiff Artistiaid-Hyfforddwyr eu contractio i ymgymryd â'r rôl gan Arts Active.

Bydd y ffioedd a gynigir fel sy'n dilyn:

- £500 i fynychu'r Encil Hyfforddiant a chyfarfod gyda Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru
- £1000 i gyflwyno sesiynau hyfforddiant i 5 hyfforddai a mynychu Cyfarfod Gwerthuso

Cyfanswm Ffi: £1500

Rydyn ni'n gallu talu £30 am gostiau teithio am bob ymweliad hyfforddi neu cysgodi.

**Proses Gais**

Er mwyn gwneud cais am swydd artist-hyfforddwr, anfonwch CV os gwelwch yn dda gyda llythyr yn esbonio pam eich bod eisiau ymgymryd â'r swydd a llythyr o gefnogaeth gan y sefydliad sy'n eich noddi.

Rhaid anfon llythyrau a CVs at Tom Dyer yn artworkscymru@artsactive.org.uk

Dyddiad cau gwneud cais yw 5pm ddydd Llun 10 Gorffennaf 2023 fan bellaf.
Byddwn yn cadarnhau eich cyfranogiad erbyn dydd Mercher 19 Gorffennaf 2023

Rydyn ni'n ymroddedig i gefnogi unrhyw trefniadau mynediad ar gyfer y broses cyfweliad. Os oes angen unrhyw trefniadau mynediad neu addasiadau am y broses, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y briff hwn, cysylltwch â Tom Dyer, Rheolwr Partneriaeth AgeWorks Cymru yn artworkscymru@artsactive.org.uk
I gael mwy o wybodaeth ar ArtWorks Cymru, ewch i'n gwefan www.artworks.cymru

Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau'r wybodaeth yma mewn fformat gwahannol. (e.e. Print yn fwy, yn glywedol)